Felix o Nola

Ffrind y pryfed cop

Caredigrwydd / dewrder / gostyngeiddrwydd / ffyddlondeb

Oes arnoch chi ofn pryfed cop? Yn enwedig y rhai mawr yna sydd yn y tŷ. Beth am y rhai sydd yn y báth? Mae'r stori hon yn sôn am ddyn gafodd ei achub am fod y pry copyn wedi creu gwe ar draws crac yn wal y tŷ.

Roedd Felix yn byw mewn cyfnod pan oedd Cristnogion yn cael eu lladd. Penderfynodd yr Ymerawdwr garcharu Esgob Nola. Aeth y milwyr i gyrchu'r Esgob a'i roi mewn carchar tywyll a llaith. Er fod yr Esgob yn hen ŵr, roedd yn ddyn cyfrwys iawn. Cyn pen dim, roedd wedi dianc o'r carchar.

"Fedrwn ni ddim dweud wrth yr Ymerawdwr fod yna Gristion wedi dianc. Bydd rhaid i ni chwilio am Gristion arall i'w garcharu," meddai un o'r milwyr.

Felly daliwyd Felix, ffrind yr Esgob, a'i garcharu. Ymhen dim roedd yntau hefyd wedi dianc o'r carchar. Aeth i chwilio am ei ffrind yr Esgob. Cafodd hyd iddo yn wan ac yn fregus. Curodd ar ddrws y tŷ cyfagos a gofynnodd am help.

"Dyma i chi ychydig o arian i ofalu am yr Esgob. A diolch i chi am bopeth," meddai Felix wrth y gŵr a'r wraig. Ar ôl iddo ddweud hyn, rhedodd i guddio i'r creigiau rhag ofn i filwyr yr Ymerawdwr ei ddal. Pan oedd yn ymlwybro i fyny o graig i graig clywodd garnau ceffylau'r milwyr yn agosáu. Rhedodd tuag at hen furddun. Aeth i mewn a gwelodd grac yn un o'r waliau. Gwthiodd ei hun drwyddo a daeth i ystafell fawr dywyll. Cuddiodd yno. Roedd ei galon yn dal i guro. Clywodd leisiau'n agosáu,

"Dowch i ni edrych yn yr hen furddun yma. Mae hwn yn lle da i guddio ynddo," meddai pennaeth y milwyr. Roedd tua dau ddwsin o filwyr yn chwilio ymhob twll a chornel yn y murddun.

Meddai un o'r milwyr, "Edrychwch ar y crac yma'n y wal. Efallai ei fod wedi gwthio i mewn..."

Ond cyn iddo orffen ei frawddeg, meddai pennaeth y milwyr, "Na, wrth gwrs, edrych, mae yna we pry cop ar hyd ac ar draws y crac. Does yna neb wedi bod yma ers blynyddoedd lawer. Mae'r pryfed cop wedi cael amser da yn fan 'ma." Chwarddodd y pennaeth.

"Ymlaen â ni, neu mi fydd wedi cael dipyn mwy o amser i ddianc o'n blaenau ni," meddai'r pennaeth unwaith yn rhagor.

Roedd calon Felix yn dal i guro'n gyflym. Ond fel yr âi'r munudau heibio, clywai sŵn y ceffylau'n pellhau. "O! diolch i'r pryfed cop am fy helpu," meddai'n llawen.

Ymhen rhai dyddiau, daeth Felix allan o'r ystafell fawr drwy'r crac yn y wal. Daeth allan i'r awyr iach. Aeth i chwilio am rywbeth i'w fwyta. Gwelodd dŷ bychan ar y gorwel. Cerddodd yn araf tua'r bwthyn. Curodd wrth y drws a chafodd groeso mawr. Bob bore byddai'n cerdded i'r bwthyn i gael tamaid o fwyd. Bob nos byddai'n mynd yn ôl i'r hen furddun i gysgu yn yr ystafell fawr. Ar ôl chwe mis o fynd a dod fel hyn, dywedwyd wrtho un bore.'

"Fydd dim rhaid i ti ddianc i'r murddun fel hyn bob nos. Mae'r Ymerawdwr wedi penderfynu nad ydi o ddim am ymosod ar Gristnogion o hyn ymlaen. Fe gei di fynd i ble bynnag y mynni. Wnaiff o ddim niwed i ti."

Erbyn iddo gyrraedd adref, roedd yr hen Esgob wedi marw. Gofynnodd y bobl iddo a fyddai ef yn dod yn Esgob arnyn nhw, ond ateb Felix oedd,

"Na, mae'n well gen i fyw bywyd syml. Mi ydw i eisiau byw mewn tŷ bychan ac fe hoffwn i rannu'r tŷ gyda phob math o bryfed cop. Dyma'r unig ffordd fedra i ddiolch iddyn nhw am achub fy mywyd."

"Paid ag ofni, yr wyf fi gyda thi; paid â dychryn, myfi yw dy Dduw."

Eseia 41:10

Diolch i Ti, O Dduw,
am y creaduriaid bach sydd o'n cwmpas ni.
Mae yna rai ohonyn nhw sy'n codi ofn arna i,
Ond helpa fi i gofio eu bod nhw yn rhan o dy greadigaeth di.
Amen.

Oes yna bwrpas i fân greaduriaid fel y pry copyn?
Ydyn nhw'n rhan o gadwyn fwyd?